

---

## Y prosiect rheoli datblygu TU874

---

*Patrwm cyflwyno* O fis Tachwedd i fis Ebrill  
O fis Mai i fis Hydref

### *Gwybodaeth am y dyfarniad*

Mae'r dyfarniad Rheoli Datblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n rheoli prosiectau ar y rheng flaen a'r sawl sydd â chyfrifoldeb am fentrau datblygu mewn amrywiaeth eang o fentrau cyhoeddus a phreifat cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n cynnig adnoddau cysyniadol ar gyfer dehongli amgylcheddau sy'n newid yn gyflym ac yn addysgu sgiliau ar gyfer rheoli newid mewn ffordd strategol. Mae'r dyfarniad yn cyfuno tri chwrs craidd wedi'u dylunio'n arbennig ar reoli datblygu gyda chyrсияu eraill Y Brifysgol Agored ym maes rheolaeth a'r amgylchedd.

Argymhellir yn gryf y dylai myfyrwyr gael gradd gyntaf; fodd bynnag, gellir derbyn y sawl nad ydynt yn raddedig ac argymhellir y dylent ddechrau'r dyfarniad gyda *Datblygu: cyd-destun ac ymarfer* (TU871), sy'n rhoi 30 o'r 60 o bwyntiau sy'n ofynnol ar gyfer y dystysgrif ôl-raddedig a 30 o'r 120 o bwyntiau sy'n ofynnol ar gyfer y diploma ôl-raddedig. Mae'n rhaid i bob myfyriwr gwblhau *Galluoedd ar gyfer rheoli datblygu* (TU870) a *Datblygu sefydliadol: gwrthdaro, gwerthoedd ac ystyr* (TU872) yn llwyddiannus fel rhan o'r diploma ôl-raddedig. Pan fyddant wedi cael y diploma ôl-raddedig, gallant gofrestru ar gyfer yr MSc mewn Rheoli Datblygu ac astudio'r modiwl craidd *Y prosiect rheoli datblygu* (TU874/TUXX874).

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- cefndir academiaidd mewn astudiaethau datblygu neu reoli datblygu, *neu* brofiad mewn gwaith datblygu neu reolaeth
- y gallu i roi cymorth academiaidd i fyfyrwyr drwy farcio ac ysgrifennu sylwadau manwl ar eu haseiniadau, a thrwy fod ar gael dros y ffôn neu drwy e-bost i ateb ymholiadau ar gynnwys cyrsiau
- y gallu i gynnal tiwtorialau neu ysgolion dydd, sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr rannu profiadau, trafod a chymhwyso cysyniadau o gyrsiau i'w sefyllfaoedd eu hunain, a chael arweiniad ychwanegol ar y rhannau o'r cwrs sy'n peri trafferth iddynt (Noder: nid oes unrhyw ysgolion dydd na thiwtorialau wyneb yn wyneb ar y cwrs hwn. Bydd myfyrwyr yn cael cymorth yn electronig.)
- y gallu i gyfathrebu â'r swyddfa Rheoli Datblygu yn Nottingham a defnyddio fforymau ar-lein i diwtoriaid.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig
- profiad o addysgu neu hyfforddi rhyngpersonol.

### **Cyrsiau craidd**

*Cyrsiau 30 o bwyntiau*

*Galluoedd ar gyfer rheoli datblygu* TU870/TUXX870

*Datblygu sefydliadol: gwrthdaro, gwerthoedd ac ystyr* TU872/TUXX872

*Y prosiect rheoli datblygu* TU874/TUXX874

## **Cyrsiau dewisol**

### *Cyrsiau 30 o bwyntiau*

*Creadigrwydd, arloesedd a newid B822*

*Datblygu: cyd-destun ac ymarfer TU871/TUXX871*

*Ecoleg, cyfiawnder a dinasyddiaeth D830*

*Gwneud penderfyniadau amgylcheddol: dull systemau T863/TXX863*

*Moeseg amgylcheddol T861/TXX861*

*Prisio a pholisïau amgylcheddol D831/DXX831*

*Ailfeddwl polisïau cymdeithasol D860*

*Strategaeth B820*

*Polisïau technoleg ac ymchwil arloesedd T890*

*Her y gwyddorau cymdeithasol D820*

*Rhyfel, ymyrryd a datblygu TU875/TUXX875*

### *Cyrsiau 60 o bwyntiau*

*Sylfeini rheolaeth uwch B800 (wedi dod i ben bellach) neu Hanfodion rheolaeth uwch B713*

### *Disgrifiad o'r cwrs*

Dyma'r elfen olaf, orfodol yn yr MSc mewn Rheoli Datblygu. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ymgymryd â darn annibynnol o waith sy'n integreiddio'r wybodaeth maent wedi'i chael o'r dyfarniad gydag enghraifft o ymarfer cyfredol ym maes rheoli datblygu. Mae'r cwrs yn meithrin sgiliau rheoli prosiectau ymchwil ac yn datblygu gallu myfyrwyr i gynllunio, trefnu a chyflawni prosiect annibynnol ar lefel ôl-raddedig. Mae hefyd yn eu galluogi i gynnwys eu pryderon a'u profiad eu hunain yn y broses o ddadansoddi a chymhwyso sefyllfa ymarferol o ran rheoli datblygu.

Mae'r asesiad ar ddiwedd y cwrs yn adroddiad terfynol 10,000 o eiriau. Fel tiwtor ar gyfer y cwrs hwn, chi fydd y marciwr cyntaf ar gyfer adroddiadau terfynol pob myfyriwr yn eich grŵp tiwtora a byddwch hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn ail farciwr ar gyfer myfyrwyr eraill.

### *Gwybodaeth ychwanegol*

- Byddai'n fanteisiol pe byddai gennych brofiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr ôl-raddedig.
- Cyflwynir TU874 a TUXX874 yn electronig. Mae TUXX874 ar gyfer myfyrwyr a noddir o'r tu allan i'r DU neu Ewrop gyfandirol. Mae profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar addysgu a chymorth o bell yn hanfodol.

### *Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	4
Band cyflog:	2
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.